

# Arolwg o Broffesiynolion Creadigol - 2017



Artist: Duncan Ayscough



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

# Arolwg o Broffesiynolion Creadigol - 2017

## Cyflwyniad

Cynnig Cyngor Celfyddydau Cymru ystod o gefnogaeth i broffesiynolion creadigol annibynnol gyda'r nod o 'ddatblygu sail fwy gwydn a chynhyrchiol i artistiaid' yng Nghymru. Anfonwyd yr arolwg at bob unigolyn a gafodd arian drwy unrhyw un o'n cynlluniau grant i unigolion yn y tair blynedd diwethaf (2014/15 hyd 2016/17). Nodwyd bod cyfanswm o 429 o unigolion wedi derbyn y fath grantiau a gallai rhai ohonynt fod wedi derbyn grant ar gyfer sawl blwyddyn.

Cawsom gyfanswm o 183 o ymatebion oddi wrth y 429 unigolyn a gafodd grantiau yn y tair blynedd diwethaf. Cynrychiola hyn dros ddwy ran o bump (42.7%) o'r sampl gyfan. O'r ymatebion hyn cafwyd 94.5% (173) yn Saesneg a 5.5% (10) yn Gymraeg.

## Cynlluniau grant


- Dros y tair blynedd dan sylw (2014/15 hyd 2016/17), dyfarnwyd cyfanswm o 279 o grantiau i'r 173 o unigolion a ymatebodd.
- Roedd Grantiau Bychain a roddwyd i unigolion yn cyfrif am hanner bron (49.8%) o'r holl grantiau a gafodd ymatebwyr.

Amlyga'r tabl isod y grantiau a roddwyd i'r ymatebwyr yn ôl y flwyddyn gyda chanran y newid yn nifer y grantiau o 2014/15 hyd 2016/17.

	2014/15		2015/16		2016/17		Canran y newid 2014/15-2016/17
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	
Grantiau Bychain (dan £5,000)	38	47.5	58	56.9	43	44.3	13.2
Grantiau Mawrion (dros £5,000)	17	21.3	18	17.6	19	19.6	11.8
Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol	16	20	18	17.6	26	26.8	62.5
Grantiau Cymru Greadigol	6	7.5	8	7.8	9	9.3	50
Llysgennad Creadigol	3	3.8	0	0	0	0	-100
<b>Cyfanswm</b>	<b>80</b>	<b>100</b>	<b>102</b>	<b>100</b>	<b>97</b>	<b>100</b>	<b>21.3</b>

- Nododd dau draean (63.9%) o'r ymatebwyr mai dim ond un grant a gawsant dros y tair blynedd.

Dengys y graff isod nifer y grantiau a roddwyd i unigolion dros y tair blynedd.



## Incwm

- Nododd traean (36.1%) o ymatebwyr fod 100% o'u holl incwm (gan gynnwys grantiau) yn 2016/17 yn gysylltiedig â'u gwaith o fod yn broffesiynolyn creadigol.
- Nododd 4 unigolyn fod llai na 5% o'u hincwm yn 2016/17 yn gysylltiedig â'u gwaith yn unigolyn creadigol. O'r unigolion hyn, ni chafodd 3 unrhyw incwm o'u gwaith creadigol.

Dengys y tabl isod ganran incwm yr ymatebwyr yn 2016/17 sy'n gysylltiedig â'u gwaith proffesiynol creadigol.

	Nifer	%
>5%	4	2.2
5% - 10%	18	9.8
11% - 25%	18	9.8
26% - 50%	33	18
51% - 75%	24	13.1
76% - 99%	19	10.9
100%	66	36.1


- Nid ymgwymerodd 59 (32.2%) o broffesiynolion creadigol â gwaith ychwanegol i ategu eu hincwm yn 2016/17.
- Bu bron i ddwy ran o bump (39.3%) o broffesiynolion creadigol yn gweithio yn y sector addysg yn ogystal â'u gwaith creadigol a dim ond 12 a fu'n gweithio yn y sector gwirfoddol.

	Nifer	%
Ad dysg	72	39.3
Am herthnasol/dim gwaith a rall am dâl	59	32.2
Y diwydiannau creadigol	48	26.2
Arall	41	22.4
Y celfyddydau cymunedol	36	19.7
Gweinyddu'r celfyddydau	21	11.5
Y sector gwirfoddol	12	6.6

## Gwaith proffesiynolion creadigol

- Nododd traean (32.2%) o ymatebwyr fod eu hincwm (gan gynnwys grantiau) yn broffesiynolion creadigol yn 2016/17 yn uwch o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dywedodd dwy ran o bump (39.9%) fod eu hincwm wedi aros yn ei unfan ers y flwyddyn flaenorol a nododd pumed ran (22.4%) ei fod yn is na'r flwyddyn flaenorol.


Amlyga'r siart isod incwm esiynolion creadigol yn 2016/17 o'i gymharu â 2015/16.



- Nododd dros draean (35.5%) o ymatebwyr fod eu rhagolygon cyfredol yn broffesiynolion creadigol yng Nghymru tua'r un peth ond teimlai 30.6% fod eu rhagolygon yn llai cynaliadwy'n ariannol erbyn hyn.

	Nifer	%
Tua'r un peth Llai cynaliadwy'n ariannol erbyn hyn	65	35.5
Mwy cynaliadwy'n ariannol erbyn hyn	56	30.6
Ansicr/Nid wyddant	45	24.6
	17	9.3

- Ystyrir Cymru yn lle da i broffesiynolion creadigol fyw gydag 84% o'r ymatebwyr yn cytuno â hyn.
- Cytuna 7 proffesiynolyn creadigol ymhob 10 fod eu profiad yn y flwyddyn ddiwethaf wedi cryfhau eu penderfyniad i barhau i ddatblygu eu gyrfa creadigol yng Nghymru.
- Cytunodd bron i ddwy ran o bump (37.2%) o'r ymatebwyr y caent fel arfer ffi briodol am eu gwaith proffesiynol creadigol.
- Cytunodd dros hanner (53%) o'r proffesiynolion creadigol fod y bri rhyngwladol ar eu gwaith wedi cynyddu dros y flwyddyn flaenorol.
- Cytunodd 7 ymhob 10 fod Cymru yn lle da i weithio ynnddi i broffesiynolion creadigol.
- Cytunodd tri chwarter (75.4%) o broffesiynolion creadigol i'w proffil godi yng Nghymru.




## Datblygiad proffesiynol

- Nododd hanner (49.7%) yr ymatebwyr eu bod wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus yn 2016/17.
- Ymgwymerodd pumed ran (20.2%) o broffesiynolion creadigol â datblygiad proffesiynol parhaus ym maes busnes yn ystod 2016/17.

## Yr ymatebwyr

### Celfyddyd

- Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn gweithio ar draws lawer gelfyddyd. Nododd dros hanner (54.6%) eu bod yn gweithio yn y celfyddydau gweledol a 5 yn unig (2.7%) ym maes syrcas.



## Rhywedd

- Roedd dros hanner (54.1%) o broffesiynolion creadigol a ymatebai i'r arolwg hwn yn fenywod.




## Oed

- Dros hanner (55.2%) yr ymatebwyr a oedd yn yr oed 25-44. Roedd pumed ran (20.8%) wedyn rhwng 55 a 74 oed. Nid oedd unrhyw ymatebwyr dros 75 oed.

	Nifer	%
18-24	5	2.7
25-34	50	27.3
35-44	51	27.9
45-54	39	21.3
55-64	27	14.8
65-74	11	6
75+	0	0


## Incwm

- Nododd dros hanner (51.4%) y proffesiynolion creadigol fod eu hincwm (gan gynnwys grantiau ond ac eithrio didyniadau) yn llai na £10,399 yn 2016/17.
- Nododd llai na degfed ran (9.8%) o unigolion fod eu hincwm yn 2016/17 yn fwy na £26,000.



## Dosbarthiad daearyddol

- Cafodd 65 o ymatebwyr sy'n byw yng Nghaerdydd grantiau proffesiynol creadigol o 2014/15 hyd 2016/17.
- Ni chofnodwyd unrhyw ymatebion yn yr arolwg oddi wrth unigolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful neu Gastell-nedd Port Talbot.



## Ffocws ar grantiau (2015/16)

### Grantiau Bychain

- O'r 43 proffesiynolyn creadigol a ymatebodd ac a gafodd grant bychan yn 2016/17, nododd bron hanner (48.8%) fod 100% o'u hincwm yn gysylltiedig â'u gwaith proffesiynol creadigol.
- Credai dros ddwy ran o bump (41.9%) fod eu hincwm o'u gwaith proffesiynol creadigol yn uwch yn 2016/17 nag yn 2015/16.
- Credai dros draean (37.2%) o'r unigolion a gafodd grantiau bychain yn 2016/17 fod eu rhagolygon erbyn hyn o'u cymharu â'r blynyddoedd diwethaf yn llai cynaliadwy'n ariannol.
- Cytunodd dwy ran o bump (39.5%) y cawsai fel arfer ffi neu gyflog priodol am eu gwaith proffesiynol creadigol ac anghytunodd traean (32.6%) â'r gosodiad hwn.
- Cytunodd 9 ymhob 10 (88.4%) proffesiynolyn creadigol a gawsai grant bychan yn 2016/17 fod Cymru yn wlad dda i broffesiynolion creadigol fyw ynddi ac 7 ymhob 10 (69.8%) yn cytuno ei bod yn wlad dda i weithio ynddi.
- Nododd dros dair rhan o bump (62.8%) o'r unigolion a gafodd grantiau bychain fod incwm eu gwaith proffesiynol creadigol yn is na £10,399.

### Grantiau Mawrion

- Cafodd gyfanswm o 19 proffesiynolyn creadigol grant mawr yn 2016/17. Nododd hanner (47.4%) o'r ymatebwyr a gafodd grant mawr y deuai 100% o'u hincwm o'u gwaith proffesiynol creadigol.
- Dywedodd dwy ran o bump (42.1%) o'r rhai a gafodd grant mawr yn 2016/7 fod eu hincwm yn 2015/16 yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol.
- Credai 6 unigolyn (31.6%) a gafodd grant mawr yn 2016/17 fod eu rhagolygon o ran bod yn broffesiynolion creadigol yng Nghymru o'u cymharu â'r blynyddoedd diwethaf yn fwy cynaliadwy'n ariannol erbyn hyn. Credai saith arall (36.8%) fod eu rhagolygon yr un peth â'r flwyddyn flaenorol.
- Cytunodd 9 ymhob 10 (94.7%) proffesiynolyn creadigol a gawsai grant mawr yn 2016/17 fod Cymru yn wlad dda i broffesiynolion creadigol fyw ynddi ac 8 ymhob 10 (84.2%) yn cytuno ei bod yn wlad dda i weithio ynddi.
- Cytunodd dau draean (68.4%) o'r ymatebwyr a gafodd grant mawr yn 2016/17 y cânt fel arfer ffi neu gyflog priodol am eu gwaith a chytunodd 9 ymhob 10 (89.5%) fod eu proffil proffesiynol creadigol yng Nghymru wedi codi yn y flwyddyn flaenorol.
- Dywedodd chwarter (26.3%) a gafodd grant mawr yn 2016/17 fod eu hincwm proffesiynol creadigol yn is nag £10,399.

## Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

- Nododd 8 o'r 26 unigolyn creadigol (30.8%) a gafodd grant Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol yn 2016/17 fod eu holl incwm yn gysylltiedig â'u gwaith proffesiynol creadigol.
- Nododd dros hanner (53.8%) o'r rhai a gafodd grant Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol yn 2016/7 fod eu hincwm yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf, gyda phumed ran (19.2%) yn dweud ei fod yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- Credai dwy ran o bump (42.3%) o'r ymatebwyr a gafodd grant Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol yn 2016/17 eu bod yn fwy cynaliadwy'n ariannol erbyn hyn ond teimlai chwarter (23.1%) yn llai cynaliadwy'n ariannol.
- Cytunodd dros bedair ran o bump (84.6%) fod Cymru yn lle da i broffesiynolion creadigol fyw a gweithio ynddi.
- Cytunodd 9 ymhob 10 (88.5%) o'r bobl greadigol broffesiynol a ymatebodd fod cydnabyddiaeth ryngwladol o'u gwaith wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch y datganiad data hwn neu gwestiynau ynghylch y datganiad data hwn neu os hoffech gael eich ychwanegu at ein rhest o ddefnyddwyr rheolaidd, cysylltwch â'n tîm ymchwil:

[ymchwil@celf.cymru](mailto:ymchwil@celf.cymru) neu ewch at ein gwefan: [www.celf.cymru/](http://www.celf.cymru/)

## Cyswllt

Tîm Ymchwil a Gwerthuso  
Cyngor Celfyddydau Cymru  
Plas Bute  
Caerdydd CF10 5AL

Ffôn: 02920 441373